

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Cyngor Cymuned Cynwyl Elfed - Tystysgrif ac adroddiad archwiliad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae adroddiad archwiliad cymwysiedig wedi ei gyhoeddi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer Cyngor Cymuned Cynwyl Elfed. Mae manylion y mater sydd wedi arwain ar y cymhwyster isod:

Cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn datgan fod rhaid i aelodau'r Cyngor cwrdd mewn cyfarfod a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu, â Chadeirydd y cyfarfod yn arwyddo a dyddio y Ffurflen Flynyddol.

Nid yw cymeradwyaeth y Ffurflen Flynyddol wedi'i ddefennu gan y Cyngor yn y cofnodion, felly nid ydym yn gallu bod yn sicr fod y datganiadau cyfrifyddu wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor yn llawn.

Yn ogystal â hyn, fe wnaethom nodi materion eraill yn ystod ein hadolygiad, materion yr hofffen dynnu sylw at. Nid ydy hwn yn effeithio ar ein barn archwiliad, ond ddylai'r Cyngor eu cydnabod.

Datganiadau cyfrifyddu, Bocs 14 – Nodyn datgelu cronfeydd ymddiriedolaeth

Mae Bocs 14 ar y Datganiadau Cyfrifyddu, nodyn datgelu cronfeydd ymddiriedolaeth, wedi'i adael yn wag ar gyfer 2018/19 ar y Ffurflen Flynyddol. Mae'r Cyngor wedi cadarnhau nad yw'n unig ymddiriedolwr nac yn gyfrifol am reoli cronfeydd neu asedau ymddiriedolaeth, felly yr ateb i'r bocs yma fyddai 'Amh'.

Yn y dyfodol dylai'r Cyngor sicrhau fod y Ffurflen Flynyddol wedi'i gwblhau yn llawn cyn ei ddanfon i'r Archwilydd Allanol.

Monitro'r gyllideb yn ystod y flwyddyn

Mae'r Archwilydd Mewnol wedi nodi nid yw'r Cyngor wedi dangos ei fod yn monitro ei sefyllfa ariannol, ei incwm a'i wariant yn erbyn y gyllideb yn effeithiol drwy gydol y flwyddyn ariannol. Yn y dyfodol, dylai'r Cyngor adolygu'r incwm a'r gwariant gwirioneddol yr eir iddo yn erbyn y gyllideb y cytunwyd arni fel rhan o'i broses o fonitro'r gyllideb yn chwarterol.

Yr eiddoch yn gywir,

Grant Thornton UK LLP

Ar gyfer ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

Dyddiad: 30 Tachwedd 2020

Cyfeirnod: WAL012